Y RHWYDWAITH YMCHWIL IECHYD MEWN YSGOLION
SCHOOL HEALTH RESEARCH NETWORK

Welsh Network of Healthy School Schemes
Cynlluniau Ysgolion Iach - Rhwydwaith Cymru

# Adroddiad ar Holiadur Amgylchedd yr Ysgol 2017/18 ar gyfer Cynlluniau Ysgolion Iach – Rhwydwaith Cymru

**Chwefror 2019**

Paratowyd gan y Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion
DECIPHer, Prifysgol Caerdydd

**Adroddiad ar Holiadur Amgylchedd yr Ysgol 2017/18**
**ar gyfer Cynlluniau Ysgolion Iach – Rhwydwaith Cymru**

**Cynnwys**


Casglu data a'r sampl ........ 1
Blaenoriaethau ac ymrwymiad yr uwch dîm rheoli i iechyd ........ 3
Egwyl ginio ........ 7
Polisi'r ysgol ar iechyd a lles ........ 8
Llais y myfyriwr ........ 10
Ymglymiad rhieni a'r gymuned ........ 11
Addysg iechyd a lles yn y cwricwlwm ........ 14
Addysg Bersonol a Chymdeithasol (ABCh) ........ 20
Gweithgarwch corfforol a chludiant egnïol ........ 22
Bwyta'n Iach ........ 26
Tybaco, cyffuriau ac alcohol ........ 30
Iechyd meddwl a lles ........ 33
Mentora ........ 35
Addysg Rhyw a Pherthnasoedd (ARhPh) ........ 35
Trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol (VAWDASV) ........ 38
Darpariaeth gwasanaeth iechyd ........ 40
Ymddygiad a disgyblaeth ........ 45
Cefnogi iechyd a lles myfywyr a allai wynebu deilliannau gwaeth ........ 46
Plant a phobl ifanc mewn gofal ........ 48
Gofalwyr ifanc ........ 51

**Casglu data a'r sampl**

Cwblhaodd yr ysgolion sy'n aelodau o'r Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion Holiadur Amgylchedd yr Ysgol rhwng Chwefror a Gorffennaf 2018.

O'r 212 ysgol sy'n aelodau, dychwelodd 161 (**76%**) ohonynt holiadur ac roedd y rhain yn cynrychioli pob awdurdod lleol (tabl 1).

**Tabl 1. Crynodeb ac aelodau'r Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion yn ôl Awdurdod Lleol a llenwi Holiadur Amgylchedd yr Ysgol**

| Awdurdod Lleol | Aelod o'r Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion (Ysgolion uwchradd a 'phob oed') | |
|---|---|---|
| | Wedi llenwi'r holiadur | Heb lenwi'r holiadur |
| Blaenau Gwent | 3 | 1 |
| Penybont-ar-Ogwr | 6 | 4* |
| Caerffili | 7 | 5 |
| Caerdydd | 14* | 5 |
| Sir Gaerfyrddin | 12** | 2 |
| Ceredigion | 6 | 1 |
| Conwy | 5 | 2 |
| Sir Ddinbych | 6 | 2 |
| Sir y Fflint | 11 | 0 |
| Gwynedd | 13 | 1 |
| Ynys Môn | 4 | 1 |
| Merthyr Tudful | 4 | 0 |
| Sir Fynwy | 5* | 0 |
| Castell-nedd Port Talbot | 9 | 0 |
| Casnewydd | 8 | 1 |
| Sir Benfro | 6 | 2 |
| Powys | 7 | 5 |
| Rhondda Cynon Taf | 10 | 7 |
| Abertawe | 12 | 2 |
| Torfaen | 2 | 4 |
| Bro Morgannwg | 7 | 1 |
| Wrecsam | 4 | 5 |
| CYFANSWM | 161 (157 a gynhelir) | 51 |

* Yn cynnwys un ysgol sy'n codi ffioedd; ** Yn cynnwys dwy ysgol sy'n codi ffioedd

Roedd yr ysgolion a gynhelir yn y sampl (n=157) yn cynrychioli **76%** o'r holl ysgolion a gynhelir ac ysgolion 'pob oed' yng Nghymru. Mae'r sampl yn gynrychioliadol o'r holl ysgolion yng Nghymru o ran maint a lefel y disgyblion sydd â hawl i brydau ysgol am ddim, gyda gwahaniaethau bach iawn rhwng ysgolion a lenwodd yr holiadur a'r ysgolion na wnaeth ei lenwi (tabl 2).

**Tabl 2. Hawl gymedrig i brydau ysgol am ddim a maint cymedrig yr ysgol°° mewn ysgolion a gynhelir a lenwodd Holiadur Amgylchedd yr Ysgol a'r ysgolion na wnaeth ei lenwi**

| | Sampl yr holiadur (n=157) | Ysgolion na wnaeth ei lenwi (n=50) |
|---|---|---|
| **Hawl i brydau ysgol am ddim, %** | 15.0 ±8.5 | 16.8 ±8.5 |
| **Nifer y myfyrwyr ar y gofrestr, n** | 900 ±382 | 860 ±314 |

°° Data CYBLD 2018

**Blaenoriaethau ac ymrwymiad yr uwch dîm rheoli i iechyd**

*Crynodeb o ganfyddiadau*


- **Y flaenoriaeth i'r uwch dîm rheoli** a ddewiswyd amlaf oedd cyrhaeddiad addysgol, gydag 85% o ysgolion yn ei dewis.
- Dewisodd 62% o ysgolion un o opsiynau **iechyd myfyrwyr**, ond roedd iechyd meddwl ac iechyd emosiynol yn llai tebygol o gael ei ddewis nag iechyd corfforol (61% o gymharu ag 11%). (*Gweler Ffigur 1*) Dewisodd llai na degfed o ysgolion (9%) ddwy flaenoriaeth iechyd myfyrwyr, sef canran lai nag yn 2013/14-2014/15 (21%).
- Rhoddwyd blaenoriaeth i **iechyd a lles staff** mewn ychydig o dan draean o ysgolion (28%), gan gynyddu ychydig o gymharu â chwarter o ysgolion yn 2013/14-2014/15. (*Gweler Ffigur 1*)
- Y maes a welodd y gostyngiad mwyaf mewn blaenoriaeth er 2013/14-2014/15 oedd adroddiad Estyn a chategoreiddio, a gwelwyd y cynnydd mwyaf ym **mherthnasoedd staff â myfyrwyr**, o 24 i 35% o ysgolion.
- Mae gan bron i ddau draean o ysgolion (63%) un **arweinydd strategol ar gyfer iechyd a lles**, gyda 7% yn unig o ysgolion yn dweud bod ganddynt arweinwyr ar wahân ar gyfer iechyd a lles. Dywedodd un y cant o ysgolion nad oedd ganddynt arweinydd iechyd a lles.
- Mewn 87% o ysgolion gydag **un arweinydd strategol** ar gyfer iechyd a lles, roedd yr arweinydd ar lefel uwch reolwr. (*Gweler Ffigur 2*)
- Nid oedd 14% o ysgolion yn cymryd rhan yn y **cynllun ysgolion iach lleol**. Nid oedd wyth y cant o ysgolion yn gweithio tuag at gam ar hyn o bryd, ond roedd 12% yn gweithio tuag at y Wobr Ansawdd Genedlaethol. (*Gweler Ffigur 3*) Roedd 68% o ysgolion wedi gwneud cynnydd er 2014. Roedd bron i dri chwarter (74%) o ysgolion o'r farn bod aelodaeth o'u Cynllun Ysgolion Iach lleol yn bwysig. (*Gweler Ffigur 4*)
- Roedd gan 62% o ysgolion **dargedau neu gynllun gweithredu ysgrifenedig yr ysgol ar gyfer iechyd a lles**. O'r rhain, roedd 83% yn cynnwys y targedau neu'r cynllun gweithredu yng Nghynllun Datblygu'r Ysgol ac roedd 74% ohonynt yn asesu cynnydd eu cynllun gweithredu neu eu targedau yn flynyddol, o leiaf.
- Roedd bron pob ysgol (91%) **wedi defnyddio data i ddiweddaru eu polisïau a'u harferion o ran creu ysgol iach**. Roedd dros dri chwarter o ysgolion yn cynnal eu harolygon eu hunain o'u myfyrwyr. (*Gweler Ffigur 5*)
- **Defnyddiwyd data** gan grwpiau amrywiol yn yr ysgol ac roedd ymhell dros hanner ohonynt yn rhannu data gyda'u cyngor ysgol neu gyda grwpiau eraill llais y myfyriwr. (*Gweler Ffigur 6*)
- Yn fwyaf aml, roedd ysgolion yn **defnyddio data** i amlygu angen a gosod blaenoriaethau iechyd a lles. (*Gweler Ffigur 7*)

*Eitemau'r holiadur*

| Rhif yr eitem a'r maes | | Nifer yr ysgolion a ddarparodd ddata* | Rhif y Ffigur |
|---|---|---|---|
| 2 | Blaenoriaethau'r uwch dîm rheoli | 133 | 1 |
| 3a | Arweinyddiaeth iechyd a lles | 159 | |
| 3b | Rôl arweinwyr iechyd a lles | 86 (100) | 2 |
| 4a | Cynllun Ysgolion Iach Lleol | 159 | |
| 4b | Wedi ennill cam Ysgol Iach | 129 (136) | 3 |
| 4c | Blwyddyn ennill y cam diweddaraf | 110 (136) | |
| 4ch | Pwysigrwydd aelodaeth o'r Cynllun Ysgolion Iach | 126 (136) | 4 |
| 5a | Cynllun gweithredu a thargedau | 157 | |
| 5b | Cynllun gweithredu a thargedau yng Nghynllun Datblygu'r Ysgol | 95 (97) | |
| 5c | Cynllun gweithredu a thargedau wedi'u hadolygu | 89 (97) | |
| 6a | Defnyddio'r data | 158 | |
| 6b | Ffynonellau data | 142 (143) | 5 |
| 6ch | Defnyddwyr y data | 141 (143) | 6 |
| 6e | Y defnydd o'r data | 138 (143) | 7 |


* Mae patrymau hepgor yn yr holiadur yn golygu nad yw pob cwestiwn yn berthnasol i bob ysgol. Mae'r rhifau mewn cromfachau yn cynrychioli cyfanswm nifer yr ysgolion yr oedd y cwestiwn yn berthnasol iddynt.

*Ffigurau*





Sylwer: roedd ysgolion yn dewis hyd at 4 blaenoriaeth.


Ffigur 2. Rôl yr arweinydd iechyd a lles mewn ysgolion sydd ag un arweinydd strategol





Ffigur 3. Pa gam o'r Cynllun Ysgolion Iach y mae'r ysgol yn gweithio tuag ato





Ffigur 4. Pwysigrwydd aelodaeth o'r Cynlluniau Ysgolion Iach – Rhwydwaith Cymru i waith iechyd a lles






Ffigur 5. Ffynonellau data a ddefnyddir i ddiweddaru polisïau ac arferion yr ysgol ynghylch iechyd



Ffigur 6. Defnyddwyr data iechyd a lles



Ffigur 7. Defnydd ysgolion o ddata i greu ysgol iach

**Egwyl ginio**

*Crynodeb o ganfyddiadau*


- Caiff pob ysgol o leiaf 30 munud ar gyfer eu **hegwyl ginio**. Caiff y rhan fwyaf ohonynt (89%) o leiaf 40 munud a chaiff 9% ohonynt awr neu fwy. (*Gweler Ffigur 8*)
- Roedd dau y cant o ysgolion wedi **ymestyn hyd eu hegwyl ginio** yn y ddwy flynedd ddiwethaf ac roedd 18% wedi'i ostwng. Roedd 23% arall wedi ystyried ei ostwng, ond wedi penderfynu peidio â gwneud hynny.
- Nid oedd y rhan fwyaf o ysgolion (72%) yn caniatáu i'w disgyblion blwyddyn 7 i 11 **adael y safle yn ystod amser cinio**.
- Roedd y rhan fwyaf o ysgolion a oedd yn caniatáu i fyfyrwyr blwyddyn 7 i 11 adael y safle yn gofyn am ganiatâd rhieni i wneud hynny ac roedd caniatâd i unrhyw fyfyriwr adael y safle yn tueddu i gael ei gyfyngu i flynyddoedd 10 ac 11. (*Ffigur 9*)


*Eitemau'r holiadur*

| Rhif yr eitem a'r maes | | Nifer yr ysgolion a ddarparodd ddata* | Rhif y Ffigur |
|---|---|---|---|
| 7a | Hyd yr egwyl ginio | 160 | 8 |
| 7b | Newid i hyd yr egwyl ginio | 161 | |
| 8a | Gadael y safle yn ystod yr egwyl ginio | 159 | |
| 8b | Grwpiau blwyddyn y caniateir iddynt adael y safle | 28-45 (45) | 9 |

* Mae patrymau hepgor yn yr holiadur yn golygu nad yw pob cwestiwn yn berthnasol i bob ysgol. Mae'r rhifau mewn cromfachau yn cynrychioli cyfanswm nifer yr ysgolion yr oedd y cwestiwn yn berthnasol iddynt.

*Ffigurau*






**Polisi'r ysgol ar iechyd a lles**


*Crynodeb o ganfyddiadau*

- Roedd bron hanner yr ysgolion (48%) **yn cynnwys disgyblion mewn datblygu'r polisi iechyd a lles** 'Bob amser' neu 'Bron pob amser'. Roedd wyth y cant o ysgolion 'Prin byth' neu 'Byth' yn cynnwys disgyblion.
- Ymgynghori â chynghorau ysgol neu grwpiau eraill llais y myfyriwr oedd y **dulliau o gynnwys disgyblion** mewn datblygu polisi a ddefnyddiwyd yn fwyaf cyffredin. (*Gweler Ffigur 10*)
- Yn fwyaf cyffredin, roedd disgyblion yn **cymryd rhan yng ngham** datblygu cynnwys y polisi a rhoi sylwadau ar bolisïau draft. (*Gweler Ffigur 11*)
- Roedd polisïau iechyd a lles yn cael eu **cyfleu** gan amlaf trwy wefannau ysgolion a thrwy gyfathrebu ar lafar â disgyblion a staff. (*Gweler Ffigur 12*)


*Eitemau'r holiadur*

| Rhif yr eitem a'r maes | | Nifer yr ysgolion a ddarparodd ddata | Rhif y Ffigur |
|---|---|---|---|
| 9a | Cynnwys disgyblion | 160 | |
| 9b | Dulliau cynnwys | 79-155 (158) | 10 |
| 9c | Amseru'r cynnwys | 151 (158) | 11 |
| 10 | Cyfleu'r polisi | 159 | 12 |


*Ffigurau*



Ffigur 10. Dulliau a ddefnyddiwyd i gynnwys myfyrwyr mewn datblygu polisi iechyd a lles
% o ysgolion sy'n cynnwys myfyrwyr
100
80
60
40
20
0
40
30
14
14
3
15
25
21
22
10
6
11
21
30
26
9
3
13
7
12
29
16
22
8
6
4
25
23
34
Ymgynghoriadau â'r cyngor ysgol
Ymgynghoriadau â grwpiau eraill llais y myfyriwr
Ymgynghoriadau ehangach â myfyrwyr
Blychau awgrymi-adau
Dulliau eraill
Bob amser
Rhan fwyaf o'r amser
Yn aml
Weithiau
Prin
Byth

Ffigur 11. Cam cynnwys y disgyblion mewn datblygu polisi iechyd a lles
% o ysgolion sy'n cynnwys myfyrwyr
60
50
40
30
20
10
0
44
57
56
21
38
40
Cynnig polisi newydd
Datblygu cynnwys polisi
Gwneud sytw ar bolisi drafft
Gweithredu polisi
Ysgrifennu fersiwn cyfeillgar i fyfyrwyr
Monitro/adolygu'r polisi




**Llais y myfyriwr**

*Crynodeb o ganfyddiadau*


- Dywedodd bob ysgol bod ganddynt gyngor ysgol neu gorff tebyg wedi'i arwain gan fyfyrwyr ac roedd y rhan fwyaf ohonynt (64%) yn rhagori ar y gofyniad, sef **6 chyfarfod y flwyddyn**. Nid oedd naw y cant o ysgolion yn bodloni'r gofyniad.
- Roedd disgyblion yn **enwi aelodau'r cyngor** i'w hethol ym mwyafrif yr ysgolion. (*Gweler Ffigur 13*)
- Roedd 36% o ysgolion wedi cofrestru gyda **Chynllun Llysgenhadon Disgyblion Comisiynydd Plant Cymru**.
- Yn 2016/17, roedd gan 56% o'r ysgolion hyn **ddau Lysgennad neu fwy**. Yn 2017/18, cododd hyn i 68%.
- Bwlio a bwyd a maeth oedd y **meysydd pwnc iechyd a lles** yr oedd grwpiau llais y myfyriwr yn mynd i'r afael â nhw amlaf. (*Gweler Ffigur 14*)


*Eitemau'r holiadur*

| Rhif yr eitem a'r maes | | Nifer yr ysgolion a ddarparodd ddata* | Rhif y Ffigur |
|---|---|---|---|
| 11a | Amlder cyfarfodydd y cyngor ysgol | 160 | |
| 11b | Enwi aelodau'r cyngor | 161 | 13 |
| 12a | Cynllun Llysgenhadon Comisiynydd Plant Cymru | 152 | |
| 12b | Llysgenhadon Comisiynydd Plant Cymru | 47-51 (54) | |
| 13 | Pynciau grŵp llais y myfyriwr | 159 | 14 |

* Mae patrymau hepgor yn yr holiadur yn golygu nad yw pob cwestiwn yn berthnasol i bob ysgol. Mae'r rhifau mewn cromfachau yn cynrychioli cyfanswm nifer yr ysgolion yr oedd y cwestiwn yn berthnasol iddynt.

*Ffigurau*




**Ymglymiad rhieni a’r gymuned**

*Crynodeb o ganfyddiadau*

- Roedd dros 85% o ysgolion wedi **ceisio cynnwys rhieni mewn penderfyniadau** ynghylch gwella iechyd a lles ac roedd 40% ohonynt yn ceisio cynnwys y rhan fwyaf o rieni neu’r cyfan ohonynt. Fodd bynnag, dim ond 17% ohonynt a deimlai eu bod, **mewn gwirionedd, wedi cynnwys** o leiaf hanner y rhieni. (*Gweler Ffigur 15*)
- Roedd ysgolion a oedd yn cynnwys rhieni mewn trafodaethau am welliannau i iechyd a lles **yn fwy tebygol o’u cynnwys nhw** mewn amlygu meysydd iechyd â blaenoriaeth (36% o ysgolion) nag ym mholisi iechyd yr ysgol (32%) neu mewn addysg iechyd (25%).


- Y **dulliau o gynnwys rhieni** a ddefnyddiwyd amlaf oedd trwy riant-lywodraethwyr a thrwy arolygon rhieni. (*Gweler Ffigur 16*)
- Roedd mwyafrif helaeth yr ysgolion (87-88%) oedd â chyfleusterau chwarae/chwaraeon dan do ac awyr agored **yn caniatáu iddynt fod ar gael i grwpiau cymunedol lleol,** ond roedd hyn yn fwy tebygol o ddigwydd gyda'r nos nag ar y penwythnos neu yn ystod y gwyliau. Dim ond traean o ysgolion â chyfleusterau arlwyo a oedd yn caniatáu iddynt fod ar gael i grwpiau cymunedol lleol.
- Roedd bron pob un o'r ysgolion a oedd yn caniatáu i'w cyfleusterau fod ar gael yn codi ar rai grwpiau, neu ar bob grŵp, amdanynt. (*Ffigur 17*)
- Bu ysgolion yn gweithio gydag amrywiaeth o bartneriaid lleol a chenedlaethol i wella iechyd a lles disgyblion. Partneriaethau â'r Heddlu/Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu, staff byrddau iechyd a swyddogion datblygu chwaraeon yr awdurdod lleol oedd y mwyaf cyffredin. (*Ffigur 18*)


*Eitemau'r holiadur*


| Rhif yr eitem a'r maes | | Nifer yr ysgolion a ddarparodd ddata* | Rhif y Ffigur |
|---|---|---|---|
| 14a | Ymgais i gynnwys rhieni | 155 | 15 |
| 14b | Rhieni wedi'u cynnwys | 157 | 15 |
| 14c | Meysydd yn cynnwys rhieni | 121 (128) | |
| 14ch | Dulliau o gynnwys rhieni | 128 (128) | 16 |
| 15a | Caniatáu i gyfleusterau fod ar gael | 115-155 | |
| 15b | Codi am gyfleusterau | 154 | 17 |
| 16 | Partneriaethau | 158 | 18 |


* Mae patrymau hepgor yn yr holiadur yn golygu nad yw pob cwestiwn yn berthnasol i bob ysgol. Mae'r rhifau mewn cromfachau yn cynrychioli cyfanswm nifer yr ysgolion yr oedd y cwestiwn yn berthnasol iddynt.

*Ffigurau*




Ffigur 16. Ffyrdd y mae ysgolion yn cynnwys rhieni mewn penderfyniadau ar wella iechyd a lles
% o ysgolion sy'n cynnwys rhieni i ryw raddau
100
80
60
40
20
0
30
70
53
81
48
27
7
Cyfarfod CRA (PTA)
Arolygon
Nosweithiau gwybodaeth
Fel rhieni lywodraethwyr
Cyfarfodydd wyneb yn wyneb
Pwysau gan rhieni
Arall


Ffigur 17. Cyfran yr ysgolion sy'n codi tâl ar grwpiau cymunedol i ddefnyddio'u cyfleusterau
5%
44%
51%
Pob grŵp
Rhai grwpiau
Dim grwpiau


Ffigur 18. Partneriaethau i wella iechyd a lles
% o ysgolion
100
80
60
40
20
0
51
57
55
53
77
53
27
65
77
35
54
94
7
41
18
Teuluoedd
Ysgolion eraill
Grwpiau cymunedol lleol
Clybiau chwaraeon proffesiynol
Swyddogion datblygu chwaraeon yr ALl
Chwaraeon Cymru
Sector Preifat
Trydydd Sector
Staff Bwrdd Iechyd
Iechyd Cyhoeddus Cymru
Tîm Ysgolion Iach Lleol
Heddlu Cymunedol
Safonau Masnach
Partneriaethau cymunedol lleol eraill
Partneriaethau lefel cenedlaethol eraill

**Addysg iechyd a lles yn y cwricwlwm**


*Crynodeb o ganfyddiadau*


- Roedd ysgolion yn defnyddio gwersi yn yr amserlen a diwrnodau ABCh yn fwyaf cyffredin i gyflwyno'u cwricwlwm ABCh. Roedd defnyddio diwrnodau ABCh yn cynyddu o flwyddyn 10 yn unig. (*Gweler Ffigur 19*) `
- Roedd tuag un o bob tair ysgol yn cael 30 munud neu lai o **ABCh yr wythnos yn y cwricwlwm ffurfiol**. Roedd ychydig dros draean o ysgolion yn darparu awr neu fwy o ABCh yr wythnos ym mlynyddoedd 10 ac 11. (*Gweler Ffigur 20*)
- Roedd cyfran yr ysgolion yn darparu dros awr o **Addysg Gorfforol yr wythnos** wedi dirywio'n sylweddol ym mlynyddoedd 10 ac 11. Roedd dros 90% o ysgolion yn darparu o leiaf 45 munud o Addysg Gorfforol yr wythnos o flynyddoedd 7 i 11. (*Gweler Ffigur 21*)
- Nid yw'n syndod mai **gwersi ABCh/Cymhwyster Bagloriaeth Cymru** oedd y lleoliad a ddefnyddiwyd amlaf i gyflwyno addysg iechyd a lles yn y cwricwlwm ffurfiol, ac eithrio addysg ar fwyta'n iach, a gyflwynwyd yn fwyaf cyffredin mewn gwersi Technoleg Bwyd ym mlynyddoedd 7 i 9. (*Gweler Ffigurau 22-29*)
- Hefyd, roedd **gwersi Gwyddoniaeth** yn lleoliad a ddefnyddiwyd yn aml i addysgu pynciau iechyd corfforol, yn enwedig bwyta'n iach, gweithgarwch corfforol, addysg am dybaco ac, ym mlynyddoedd 7 i 9, Addysg Rhyw a Pherthnasoedd (ARhPh). (*Gweler Ffigurau 22-26, 28*)
- Bwyta'n iach oedd y pwnc a oedd yn fwyaf tebygol o gael ei **addysgu mewn mwy nag un lle** yn y cwricwlwm, a'r lleiaf tebygol oedd cyffuriau, alcohol ac iechyd meddwl a lles. (*Gweler Ffigurau 22-28*)
- Roedd ychydig dros hanner o ysgolion (57%) yn addysgu rhyw fath o **addysg perthnasoedd heblaw am ARhPh** ac roedd dros un o bob pump o'r rhain yn cyflwyno'r addysg drwy addysg grefyddol. (*Gweler Ffigurau 29*)
- Roedd y defnydd o **Raglen Graidd Cyswllt Ysgolion Cymru Gyfan** wedi dirywio er 2015, ac nid oedd 51% o ysgolion wedi'i defnyddio yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf. Fodd bynnag, roedd un o bob tair ysgol o hyd yn ei defnyddio unwaith y tymor neu fwy. Hefyd, roedd un o bob tair ysgol yn defnyddio **Theatr mewn Addysg** i addysgu ynghylch camddefnyddio sylweddau o leiaf unwaith y flwyddyn. (*Gweler Ffigurau 30*)
- Roedd y rhan fwyaf o ysgolion (73%) yn gwneud **paratoadau i gyflwyno addysg iechyd a lles yn y cwricwlwm newydd**. Y gweithgaredd a enwyd yn fwyaf cyffredin oedd cynllunio i addysgu iechyd a lles ar draws y cwricwlwm. Roedd chwarter o ysgolion yn ymgynghori â disgyblion ar sut i gyflwyno addysg iechyd a lles. (*Ffigurau 31*)


*Eitemau'r holiadur*


| Rhif yr eitem a'r maes | | Nifer yr ysgolion a ddarparodd ddata | Rhif y Ffigur |
|---|---|---|---|
| 17 | Cyflwyno ABCh | 152-158 Blynyddoedd 7-11; 107-109 Blynyddoedd 12-13 | 19 |
| 18 | Darpariaeth ABCh | 138-148 Blynyddoedd 7-11; 95 Blynyddoedd 12-13 | 20 |
| 19 | Darpariaeth Addysg Gorfforol | 153-156 | 21 |
| 20 | Addysg ar fwyta'n iach | 135-160 Blynyddoedd 7-11; 84-91 Blynyddoedd 12-13 | 22 |
| 21 | Addysg ar weithgarwch corfforol | 139-153 Blynyddoedd 7-11; 79-80 Blynyddoedd 12-13 | 23 |
| 22 | Addysg ar dybaco | 110-146 Blynyddoedd 7-11; 61-68 Blynyddoedd 12-13 | 24 |
| 23 | Addysg ar gyffuriau | 129-153 Blynyddoedd 7-11; 76-87 Blynyddoedd 12-13 | 25 |
| 24 | Addysg ar alcohol | 123-145 Blynyddoedd 7-11; 75-78 Blynyddoedd 12-13 | 26 |
| 25 | Addysg ar iechyd meddwl a lles meddyliol | 140-152 Blynyddoedd 7-11; 82-84 Blynyddoedd 12-13 | 27 |
| 26 | Addysg rhyw a pherthnasoedd | 136-155 Blynyddoedd 7-11; 67-74 Blynyddoedd 12-13 | 28 |
| 27a | Mathau eraill o addysg perthnasoedd | 153 | |
| 27b | Mathau eraill o addysg perthnasoedd yn y cwricwlwm | 66-75 (87) Blynyddoedd 7-11; 33-36 (87) Blynyddoedd 12-13 | 29 |
| 28 | Adnoddau'r cwricwlwm | 146-152 | 30 |
| 29 | Paratoi ar gyfer y cwricwlwm newydd | 161 | 31 |


*Ffigurau*






Ffigur 20. Amser wedi'i neilltuo i ABCh o fewn y cwricwlwm ffurfiol (wythnosol)
% o ysgolion
100
80
60
40
20
0
Blwyddyn 7
Blwyddyn 8
Blwyddyn 9
Blwyddyn 10
Blwyddyn 11
Blwyddyn 12
Blwyddyn 13
Dim
30 munud neu lai
31 i 60 munud
Mwy na 60 munud
10
53
33
4
11
53
32
5
14
50
32
4
36
35
26
3
36
33
28
3
34
25
36
5
28
29
37
5



Ffigur 21. Amser wedi'i neilltuo i Addysg Gorfforol yn y cwricwlwm ffurfiol (wythnosol)
% o ysgolion
100
80
60
40
20
0
Blwyddyn 7
Blwyddyn 8
Blwyddyn 9
Blwyddyn 10
Blwyddyn 11
45 munud neu lai
45-60 munud
61-120 munud
Mwy na 121 munud
9
76
13
2
8
76
14
3
6
74
19
2
1
21
70
8
2
20
71
7



Ffigur 22. Addysg ar fwyta'n iach yn y cwricwlwm ffurfiol
100
80
60
40
20
0
% o ysgolion
Blwyddyn 7
Blwyddyn 8
Blwyddyn 9
Blwyddyn 10
Blwyddyn 11
Blwyddyn 12
Blwyddyn 13
ABCh neu Fagloriaeth Cymru
Gwyddoniaeth
Technoleg Bwyd
Arall
Ni chaiff ei haddysgu i'r grŵp blwyddyn
Fe'i addysgir mewn > 1 lle


Ffigur 23. Addysg ar weithgarwch corfforol yn y cwricwlwm ffurfiol
100
80
60
40
20
0
% o ysgolion
Blwyddyn 7
Blwyddyn 8
Blwyddyn 9
Blwyddyn 10
Blwyddyn 11
Blwyddyn 12
Blwyddyn 13
ABCh neu Fagolriaeth Cymru
Gwyddoniaeth
Cyrsiau galwedigaethol
Arall
Ni chaiff ei haddysgu i'r grŵp blwyddyn
Fe'i addysgir mewn > 1 lle



Ffigur 24. Addysg ar dybaco yn y cwricwlwm ffurfiol
100
80
60
40
20
0
% o ysgolion
Blwyddyn 7
Blwyddyn 8
Blwyddyn 9
Blwyddyn 10
Blwyddyn 11
Blwyddyn 12
Blwyddyn 13
ABCh neu Fagolriaeth Cymru
Gwyddoniaeth
Arall
Ni chaiff ei haddysgu i'r grŵp blwyddyn
Fe'i addysgir mewn > 1 lle


Ffigur 25. Addysg ar gyffuriau yn y cwricwlwm ffurfiol
100
80
60
40
20
0
% o ysgolion
Blwyddyn 7
Blwyddyn 8
Blwyddyn 9
Blwyddyn 10
Blwyddyn 11
Blwyddyn 12
Blwyddyn 13
ABCh neu Fagolriaeth Cymru
Gwyddoniaeth
Arall
Ni chaiff ei haddysgu i'r grŵp blwyddyn
Fe'i addysgir mewn > 1 lle



Ffigur 26. Addysg ar alcohol yn y cwricwlwm ffurfiol
100
80
60
40
20
0
% o ysgolion
Blwyddyn 7
Blwyddyn 8
Blwyddyn 9
Blwyddyn 10
Blwyddyn 11
Blwyddyn 12
Blwyddyn 13
ABCh neu Fagolriaeth Cymru
Gwyddoniaeth
Arall
Ni chaiff ei haddysgu i'r grŵp blwyddyn
Fe'i addysgir mewn > 1 lle


Ffigur 27. Addysg ar iechyd meddwl a lles meddyliol yn y cwricwlwm ffurfiol
100
80
60
40
20
0
% o ysgolion
Blwyddyn 7
Blwyddyn 8
Blwyddyn 9
Blwyddyn 10
Blwyddyn 11
Blwyddyn 12
Blwyddyn 13
ABCh neu Fagolriaeth Cymru
Addysg Grefyddol
Arall
Ni chaiff ei haddysgu i'r grŵp blwyddyn
Fe'i addysgir mewn > 1 lle


**Ffigur 28. Addysg rhyw a pherthnasoedd yn y cwricwlwm ffurfiol**





**Ffigur 29. Addysg perthnasoedd heblaw am ARhPh yn y cwricwlwm ffurfiol**




**Ffigur 30. Defnyddio Rhaglen Graidd Cyswllt Ysgolion Cymru Gyfan a Theatr mewn Addysg ar gyfer addysg ar dybaco, alcohol a chyffuriau**






**Addysg Bersonol a Chymdeithasol (ABCh)**

*Crynodeb o ganfyddiadau*


- Cafodd ABCh ei **gydlynu** gan staff mewn amrywiaeth eang o rolau, a'r categori a ddewiswyd yn fwyaf cyffredin oedd 'Arall'. Roedd aelod o uwch dîm rheoli'r ysgol yn cydlynu ABCh mewn mwy na thraean o ysgolion. (*Gweler Ffigur 32*)
- Mewn tri chwarter o ysgolion, tiwtoriaid dosbarth ac athrawon dosbarth oedd â'r prif **gyfrifoldeb am addysgu** ABCh neu nid oedd gan unrhyw grŵp y prif gyfrifoldeb. Roedd asiantaethau allanol yn gyfrifol mewn 6% o ysgolion. (*Gweler Ffigur 33*)
- Nid oedd ychydig dros hanner o ysgolion yn darparu **hyfforddiant ffurfiol** i athrawon ABCh nad ydynt yn arbenigwyr. Mewn 12% o ysgolion, roedd hyfforddiant o'r fath yn orfodol. (*Gweler Ffigur 34*)
- Hunanasesu oedd y dull mwyaf cyffredin o asesu **cynnydd disgyblion** mewn ABCh. (*Gweler Ffigur 35*)

*Eitemau'r holiadur*


| **Rhif yr eitem a'r maes** | | **Nifer yr ysgolion a ddarparodd ddata** | **Rhif y Ffigur** |
|---|---|---|---|
| 30a | Cydlynu ABCh | 147 | 32 |
| 30b | Addysgu ABCh | 122 | 33 |
| 30c | Hyfforddiant ABCh | 154 | 34 |
| 30ch | Adborth ar ABCh i fyfyrwyr | 153 | 35 |

*Ffigurau*


**Ffigur 32. Rôl yr unigolyn sydd â chyfrifoldeb am gydlynu'r ddarpariaeth ABCh**





**Ffigur 33. Athrawon sydd â'r prif gyfrifoldeb am addysgu ABCh**




**Ffigur 34. Darparu hyfforddiant ffurfiol i athrawon ABCh nad ydynt yn arbenigwyr**






**Gweithgarwch corfforol a chludiant egnïol**

*Crynodeb o ganfyddiadau*


- Roedd cyfran yr ysgolion oedd yn cynnig **chwaraeon allgyrsiol neu weithgarwch corfforol wedi'i strwythuro** i fyfyrwyr ym mlynyddoedd 7 a 10 wedi disgyn er 2016, o fwy na 50% i rhwng 36 a 47% o ysgolion. (*Gweler Ffigur 36*)
- Mae cyfran yr ysgolion sy'n defnyddio Llysgenhadon Ysgol Chwaraeon Cymru i **gyflwyno chwaraeon allgyrsiol neu weithgarwch corfforol** wedi gostwng er 2016, o 50% i 41%. Staff awdurdodau lleol neu chwaraeon cymunedol oedd y grŵp a ddefnyddiodd ysgolion amlaf i gyflwyno chwaraeon allgyrsiol ar ôl athrawon Addysg Gorfforol. (*Gweler Ffigur 37*)
- Roedd bron i ddwy o bob tair ysgol yn sicrhau bod **offer chwaraeon ar gael** i fyfyrwyr yn ystod amser cinio ac ar ôl ysgol. (*Gweler Ffigur 38*)
- Roedd y rhan fwyaf o ysgolion (70%) yng nghynllun **Llysgenhadon Ifanc Chwaraeon Cymru**, er bod pedwar llysgennad neu lai gan bron i draean o ysgolion. (*Gweler Ffigur 39*)
- Roedd dros hanner yr ysgolion (57%) **yn monitro lefelau ffitrwydd corfforol disgyblion**, ond lleiafrif bach yn unig (6%) oedd yn monitro'u pwysau. (*Gweler Ffigur 40*) Yr ymateb mwyaf cyffredin i orbwysau neu lefelau ffitrwydd isel oedd trafod y mater gyda rhieni yn unigol. (*Gweler Ffigur 41*)
- Y dull a ddefnyddiwyd amlaf i **hyrwyddo cludiant egnïol** oedd darparu lle storio diogel dan orchudd i feiciau a sgwteri (69% o ysgolion), gydag oddeutu hanner o ysgolion hefyd yn cydweithio â'r Heddlu neu Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu i fynd i'r afael â diogelwch cymunedol neu ddiogelwch cludiant a hyrwyddo llwybrau cerdded a beicio diogel. Dim ond 11% o ysgolion a oedd yn cynnig hyfforddiant hyfedredd beicio. (*Gweler Ffigur 42*)
- Roedd ychydig dros hanner yr ysgolion (51%) yn gwneud tri pheth neu fwy i **hyrwyddo cludiant egnïol**.
- Roedd llai na phumed o ysgolion (19%) **yn monitro** nifer y disgyblion oedd yn cerdded neu'n beicio i'r ysgol. Roedd **gosod nodau ar gyfer cludiant egnïol** yn fwy anghyffredin byth, gyda 6% yn unig o ysgolion yn datgan eu bod yn gwneud hynny. (*Gweler Ffigur 43*)


*Eitemau'r holiadur*


| Rhif yr eitem a'r maes | | Nifer yr ysgolion a ddarparodd ddata | Rhif y Ffigur |
|---|---|---|---|
| 31a | Diwrnodau o chwaraeon allgyrsiol | 152-157 | 36 |
| 31b | Cyflwyno chwaraeon allgyrsiol | 160 | 37 |
| 32 | Mynediad at adnoddau ar gyfer gweithgarwch corfforol | 117-158 | 38 |
| 33 | Llysgenhadon Ifanc Chwaraeon Cymru | 150 | 39 |
| 34a | Monitro pwysau a ffitrwydd | 155 | 40 |
| 34b | Mynd i'r afael â phwysau a ffitrwydd | 88 (89) | 41 |
| 35a | Hyrwyddo teithio egnïol | 136 | 42 |
| 35b | Monitro teithio egnïol a gosod nodau ar ei gyfer | 148 | 43 |


* Mae patrymau hepgor yn yr holiadur yn golygu nad yw pob cwestiwn yn berthnasol i bob ysgol. Mae'r rhifau mewn cromfachau yn cynrychioli cyfanswm nifer yr ysgolion yr oedd y cwestiwn yn berthnasol iddynt.


*Ffigurau*






Ffigur 38. Mynediad disgyblion at adnoddau gweithgarwch corfforol y tu hwnt i amser gwersi
% o ysgolion
100
80
60
40
20
0
76 73
45 50
7 23
35 36
75 78
72 70
48 55
85 59
3 5
67 60
Campfa / neuadd chwaraeon
Stiwdio dawns / ffitrwydd
Pwll nofio
Trac rhedeg
Cae chwaraeon
Cyrtiau peli
Maesydd pel droed 5 bob ochr
Lle chwarae
Lle sgrialu
Offer Chwaraeon
Yn ystod amser cinio
Ar ôl ysgol


Ffigur 39. Canran yr ysgolion â Llysgenhadon Ifanc Chwaraeon Cymru
30%
4%
2%
11%
7%
6%
40%
Ysgolion nad ydynt yn y cynllun
0 Llysgenhadon (Heb eu recriwtio eto)
1 Llysgennad
2 Lysgennad
3 Llysgennad
4 Llysgennad
5 Llysgennad neu fwy



Ffigur 40. Monitro pwysau a ffitrwydd corfforol disgyblion
43
52
5
1
0%
10%
20%
30%
40%
50%
60%
70%
80%
90%
100%
% o ysgolion
Nid yw'n monitro'r un ohonynt
Monitro ffitrwydd corfforol myfyrwyr
Monitro'r ddau
Monitro pwysau myfyrwyr



Ffigur 41. Camau gweithredu'r ysgol i fynd i'r afael â gorbwysau neu lefelau ffitrwydd isel
% o ysgolion sy'n monitro pwysau neu ffitrwydd
50
40
30
20
10
0
44
42
28
18
18
9
Trafod â rhieni
Cyfeirio at nyrs yr ysgol
Rhoi rhaglen canolbwyntio ar yr unigolyn
Trafod ymagwedd ysgol gyfan
Arall
Dim byd

Ffigur 42. Strategaethau i hyrwyddo cludiant egnïol
% o ysgolion
80
60
40
20
0
45
69
28
21
11
38
53
7
Hyrwyddo llwybrau diogel
Lle storfa beiciau/sgwteri
Hybu helmedi
Ymgyrchoedd cerdded
Hyfforddiant medrusrwydd beicio
Mynedfeydd wahânol
Cydweithio â'r Heddlu/ SCCH...
Arall

Ffigur 43. Monitro teithio egnïol a gosod nodau ar ei gyfer
% o ysgolion
80
60
40
20
0
14
5
80
1
Monitro nifer y myfyrwyr sy'n deithwyr egnïol
Ddim yn monitro nifer y myfyrwyr sy'n deithwyr egnïol
Gosod nodau i gynyddu nifer y myfyrwyr sy'n deithwyr egnïol
Ddim yn gosod nodau

**Bwyta'n Iach**

*Crynodeb o ganfyddiadau*

- Y **strategaeth i hyrwyddo bwyta'n iach** a ddefnyddiwyd amlaf oedd defnyddio system heb arian i gefnogi pobl i hawlio prydau ysgol am ddim (82% o ysgolion). Roedd defnyddio cymhellion o ran pris ar gyfer opsiynau iachach wedi mynd yn llai cyffredin er 2016 (13% o gymharu â 23%). (*Gweler Ffigur 44*)
- Roedd llai na hanner yr ysgolion (42%) wedi gosod nodau i **gynyddu'r nifer sy'n hawlio prydau ysgol am ddim** (PYDd), i lawr o 59% yn 2016. (*Gweler Ffigur 44*)
- Roedd gan hanner o ysgolion (50%) dair neu fwy o **strategaethau ar waith i hyrwyddo bwyta'n iach**, i lawr o 68% yn 2016. Roedd pump neu chwe strategaeth ar waith gan 12% cant o ysgolion, i lawr o 20% yn 2016.
- Roedd **rhaglenni allgyrsiol ar gyfer dysgu am fwyd a bwyta'n iach** yn cael eu cynnig mewn 65% o ysgolion, ond mewn ychydig dros hanner o'r rhain, roedd y rhaglenni'n ddigwyddiadau achlysurol neu unigol. Yn anaml iawn yr oedd ysgolion yn gwahodd rhieni i gymryd rhan yn y rhaglenni hyn, ni waeth p'un a oeddent yn rhai rheolaidd neu achlysurol. (*Gweler Ffigur 45*)
- **Cynigiwyd clwb brecwast** trwy gydol y flwyddyn i'r holl fyfyrwyr mewn 55% o ysgolion. Roedd 16% arall o ysgolion yn cynnig clwb brecwast i rai disgyblion neu ar adegau penodol o'r flwyddyn. O'r ysgolion a oedd yn cynnig brecwast, dim ond 6% ohonynt nad oeddent yn ei gynnig yn ddyddiol.
- Roedd **codi tâl ar fyfyrwyr am frecwast** yn amrywio yn dibynnu ar y math o glwb. Lle'r oedd y clwb yn cael ei gynnig i rai disgyblion neu ar adegau penodol o'r flwyddyn yn unig, roedd yn fwy tebygol o lawer o fod ar gael yn rhad ac am ddim. (*Gweler Ffigur 46*)
- Yr agwedd ar **amgylchedd ciniawa'r ysgol** a oedd yn lleiaf tebygol o fod yn bresennol mewn ysgolion oedd nifer digonol o gadeiriau a byrddau. (*Gweler Ffigur 47*)
- Roedd gan bron i ddwy o bob tair ysgol (64%) **bolisi ar fwyta'n iach neu ar Fwyd a Ffitrwydd**. Roedd polisi wrthi'n cael ei ddatblygu gan 18% arall o ysgolion.
- Y cyd-destun lle'r oedd polisïau ysgolion ar fwyta'n iach neu ar Fwyd a Ffitrwydd yn lleiaf tebygol o ymwneud â'r mathau o **fwyd a diod y gellid eu cynnig** oedd digwyddiadau cymdeithasol yr ysgol i rieni. (*Gweler Ffigur 48*)
- Roedd 53% o ysgolion â pholisi ar fwyta'n iach neu ar Fwyd a Ffitrwydd yn ei gynnwys mewn arweiniad neu ofynion ynghylch y mathau o **fwyd a diod y gall disgyblion ddod â nhw i'r ysgol**. Dim ond mewn 1% o ysgolion yr oedd yn ofyniad yn hytrach nag yn arweiniad.
- O'r ysgolion a oedd yn cynnwys arweiniad neu ofynion ynghylch y mathau o fwyd a diod y gall disgyblion ddod â nhw i'r ysgol yn eu polisi ar fwyta'n iach neu ar Fwyd a Ffitrwydd, roedd 62% hefyd yn cynnwys **bwyd y gellid mynd ag ef ar deithiau ysgol**.
- Nid oedd y rhan fwyaf o ysgolion (79%) yn **monitro'r bwyd yr oedd disgyblion yn dod ag ef i'r ysgol**. O'r rhai a oedd yn ei fonitro, roedd 6% yn ei fonitro bob tymor neu fwy a 15% yn ei fonitro'n llai aml.
- Nid oedd defnyddio **deunyddiau wedi'u noddi'n fasnachol** yn gyffredin, ac nid oedd dros 90% o ysgolion yn defnyddio deunyddiau gan gwmnïau bwyd cyflym, diodydd meddal, diodydd ynni neu gwmnïau melysion ar gyfer unrhyw weithgareddau. Roedd tuag un o bob wyth ysgol yn defnyddio deunyddiau gan archfarchnadoedd i addysgu a chodi arian ac roedd un o bob deg yn defnyddio deunyddiau gan sefydliadau masnach ar gyfer addysgu. (*Gweler Ffigur 49*)


- Dywedodd 35% o ysgolion eu bod yn **gwahodd cynrychiolwyr o, neu'n mynd â disgyblion i ymweld ag,** archfarchnadoedd, cwmnïau bwyd neu sefydliadau masnach. Y busnesau a gafodd eu henwi'n fwy cyffredin o lawer oedd archfarchnadoedd, yna sefydliadau masnach. (*Gweler Ffigur 50*)

*Eitemau'r holiadur*


| **Rhif yr eitem a'r maes** | | **Nifer yr ysgolion a ddarparodd ddata*** | **Rhif y Ffigur** |
|---|---|---|---|
| 36 | Hyrwyddo bwyta'n iach | 157 | 44 |
| 37a | Rhaglenni allgyrsiol ar fwyd neu fwyta'n iach | 160 | |
| 37b | Gwahodd rhieni i raglenni allgyrsiol ar fwyta'n iach | 101 (104) | 45 |
| 38a | Cynnig clwb brecwast | 160 | |
| 38b | Sawl diwrnod yr wythnos y cynigir clwb brecwast | 111 (113) | |
| 38c | Codi tâl ar fyfyrwyr am glwb brecwast | 109 (113) | 46 |
| 39 | Amgylchedd ciniawa | 154-159 | 47 |
| 40a | Polisi ar fwyta'n iach | 160 | |
| 40b | Cyfyngiadau ar fwyd a gynigir yng ngwahanol gyd-destunau'r ysgol | 92-97 (103) | 48 |
| 40c | Cyfyngiadau ar y bwyd y gall disgyblion ddod ag ef i'r ysgol | 100 (103) | |
| 40ch | Cyfyngiadau ar y bwyd y gall disgyblion ddod ag ef ar deithiau'r ysgol | 52 (54) | |
| 41 | Monitro bwyd disgyblion | 158 | |
| 42a | Defnyddio deunyddiau wedi'u noddi | 143-151 | 49 |
| 42b | Cynrychiolwyr o gwmnïau / ymweliadau â chwmnïau | 161 | 50 |

* Mae patrymau hepgor yn yr holiadur yn golygu nad yw pob cwestiwn yn berthnasol i bob ysgol. Mae'r rhifau mewn cromfachau yn cynrychioli cyfanswm nifer yr ysgolion yr oedd y cwestiwn yn berthnasol iddynt.


*Ffigurau*





**Ffigur 44. Strategaethau i hyrwyddo bwyta'n iach**






**Ffigur 45. Gwahoddiadau i rieni gymryd rhan mewn rhaglenni allgyrsiol ar fwyta'n iach**





**Ffigur 46. Codi tâl ar fyfyrwyr am glybiau brecwast**


Ffigur 47. Amgylchedd ffreutu'r ysgol
% o ysgolion
100
80
60
40
20
0
77
94
91
88
99
Digon o gadeiriau a bwrddiau yn y ffreutur
O leiaf 20 munud i fwyta ar ôl eistedd
Gall myfyrwyr â bocs bwyd eistedd yn y ffreutur
Dŵr yfed am ddim yn y ffreutur
Goruchwyliaeth yn yr ystafell fwyta bob amser


Ffigur 48. Cynnwys mewn polisi ar fwyta'n iach neu ar Fwyd a Ffitrwydd y mathau o fwydydd a diodydd y gellir eu cynnig neu eu gwerthu mewn gwahanol gyd-destunau
% o ysgolion sydd â pholisi
100
80
60
40
20
0
16
46
38
11
62
28
12
49
38
9
48
42
Mewn prosiectau menter i ddisgyblion
Yn nigwyddiadau cymdeithasol yr ysgol i rieni
Yn nigwyddiadau cymdeithasol yr ysgol i ddisgyblion
Codi arian gan yr ysgol neu ddisgyblion
Oes
Nac oes
Ddim yn berthnasol


Ffigur 49. Defnyddio deunyddiau wedi'u noddi'n fasnachol
% o ysgolion
15
10
5
0
13
4
13
5
4
1
3
3
1
1
1
3
1
3
10
1
1
2
Archfarchnadoedd
Cwmnïau bwyd brys
Cwmnïau diodydd meddal
Cwmnïau diodydd egni
Cwmnïau melysion
Sefydliadau masnachu
Addysgu
Clybiau allgyrsiol
Digwyddiadau codi arian
Gweithgareddau eraill




**Tybaco, cyffuriau ac alcohol**

*Crynodeb o ganfyddiadau*

- Roedd ychydig o dan hanner yr ysgolion (47%) yn addysgu disgyblion am dybaco anghyfreithlon.
- Roedd un o bob pump o ysgolion (19%) wedi cymryd rhan yn rhaglen atal ysmygu JustB yn ystod y 12 mis diwethaf. (*Gweler Ffigur 51*)
- Cynigiwyd **cymorth rhoi'r gorau i dybaco** i fyfyrwyr mewn 58% o ysgolion. Roedd dim ond defnyddio atgyfeirio i wasanaeth oddi ar y safle wedi cynyddu er 2016, o 25% i 42% o'r ysgolion hyn. Ochr yn ochr â hynny, roedd cymorth a gynigiwyd yn yr ysgol yn unig wedi gostwng o 45% i 28% o ysgolion. Roedd gweddill yr ysgolion (29%) yn cynnig y ddau.
- Roedd gan 93% o ysgolion lwybrau neu brosesau atgyfeirio penodedig ar waith i ddarparu arbenigedd ac adnoddau i fyfyrwyr sy'n **camddefnyddio cyffuriau**. Roedd y gyfran oedd â phrosesau ar waith i fyfyrwyr sy'n **camddefnyddio alcohol** ychydig yn is (87%). Roedd prosesau atgyfeirio ar gyfer y ddau sylwedd yn absennol mewn 8% o ysgolion.
- Roedd bron pob ysgol (92%) â **pholisi yn cynnwys ysmygu a defnyddio tybaco**. Roedd atal defnyddio tybaco ar dir yr ysgol y tu allan i oriau ysgol yn nodwedd gyffredin iawn o'r polisïau hyn, ac roedd atal hynny ar safleoedd eraill ychydig yn llai cyffredin. (*Gweler Ffigur 52*)
- Roedd **e-sigaréts** wedi'u cynnwys mewn polisïau ar dybaco ac ysmygu mewn 76% o ysgolion â pholisi o'r fath. Roedd mwyafrif helaeth o ysgolion a oedd yn cynnwys e-sigaréts yn eu polisi ar dybaco ac ysmygu yn atal disgyblion a staff rhag defnyddio e-sigaréts mewn amrywiaeth o leoliadau. Roedd atal defnydd o e-sigaréts gan ymwelwyr yn llai cyffredin mewn ceir preifat a digwyddiadau'r ysgol i ffwrdd o safle'r ysgol. (*Gweler Ffigur 53*)
- Roedd bron pob ysgol (97%) a wnaeth gynnwys e-sigaréts yn eu polisi ar dybaco ac ysmygu yn gwahardd disgyblion rhag bod ag e-sigaréts yn eu meddiant ar dir yr ysgol.


- Roedd gan lai na hanner yr ysgolion **bolisi ar alcohol** a oedd yn atal staff ac ymwelwyr rhag yfed alcohol yn nigwyddiadau'r ysgol i oedolion. Roedd gan gyfran uwch o ysgolion bolisi ar alcohol a oedd yn atal yfed alcohol yn nigwyddiadau'r ysgol i fyfyrwyr. (*Gweler Ffigur 54*)


*Eitemau'r holiadur*


| Rhif yr eitem a'r maes | | Nifer yr ysgolion a ddarparodd ddata* | Rhif y Ffigur |
|---|---|---|---|
| 43 | Addysgu am dybaco anghyfreithlon | 156 | |
| 44 | Cymryd rhan mewn rhaglenni | 146-147 | 51 |
| 45a | Cynnig cymorth i roi'r gorau i dybaco | 160 | |
| 45b | Cyflwyno cymorth i roi'r gorau i dybaco | 92 (93) | |
| 46 | Atgyfeirio oherwydd camddefnyddio cyffuriau ac alcohol | 159-160 | |
| 47a | Atal defnyddio tybaco ar adegau gwahanol ac mewn gwahanol leoedd | 140-148 | 52 |
| 47b | Polisi'n cynnwys e-sigaréts | 147 | |
| 47c | Atal defnyddio e-sigaréts ar adegau gwahanol ac mewn gwahanol leoedd | 110 (112) | 53 |
| 47ch | Atal meddu ar e-sigaréts | 108 (112) | |
| 48 | Cynnwys polisi ar alcohol | 161 | 54 |


* Mae patrymau hepgor yn yr holiadur yn golygu nad yw pob cwestiwn yn berthnasol i bob ysgol. Mae'r rhifau mewn cromfachau yn cynrychioli cyfanswm nifer yr ysgolion yr oedd y cwestiwn yn berthnasol iddynt.

*Ffigurau*




Ffigur 52. Gwaharddiadau'r polisi ar ddefnyddio tybaco
% o ysgolion
100
80
60
40
20
0
91
71
82
Tir yr ysgol y tu allan i oriau ysgol
Cerbydau preifat ar dir yr ysgol
Digwyddiadau'r ysgol oddi a'r dir yr ysgol


Ffigur 53. Gwaharddiadau'r polisi ar ddefnyddio e-sigaréts
% o ysgolion y mae eu polisi ar dybaco yn cynnwys e-sigaréts
100
80
60
40
20
0
99
97
93
99
94
91
98
91
80
98
95
69
Tir yr ysgol yn ystod oriau ysgol
Tir yr ysgol y tu allan i oriau ysgol
Cerbydau preifat ar dir yr ysgol
Digwyddiadau'r ysgol oddi ar dir yr ysgol
Myfyrwyr
Staff
Ymwelwyr


Ffigur 54. Gwaharddiadau'r polisi ar yfed alcohol
% o ysgolion
80
60
40
20
0
45
39
26
22
57
48
41
57
40
32
Digwyddiadau'r ysgol i staff/oedolion yn unig, ar dir yr ysgol
Digwyddiadau'r ysgol i staff/oedolion yn unig, oddi ar dir yr ysgol
Digwyddiadau'r ysgol ar gyfer myfyrwyr, ar dir yr ysgol
Digwyddiadau'r ysgol ar gyfer myfyrwyr, oddi ar dir yr ysgol
Myfyrwyr
Staff
Ymwelwyr

**Iechyd meddwl a lles**

*Crynodeb o ganfyddiadau*


- Mae'r rhan fwyaf o ysgolion wedi datblygu, neu roeddent yn datblygu, polisïau ysgrifenedig ar iechyd meddwl a lles meddyliol disgyblion, a hunanniweidio, ond roedd polisïau ar atal hunanladdiad a/neu ofal ar ôl hunanladdiad yn llai cyffredin. (*Gweler Ffigur 55*)
- Roedd gan 67% o ysgolion bolisi ysgrifenedig a oedd yn cynnwys **iechyd meddwl y staff** a, gan amlaf (55% o ysgolion), polisi'r Awdurdod Lleol oedd hwn.
- Roedd monitro **data am absenoldeb staff a disgyblion** er mwyn cefnogi'u hiechyd meddwl a'u lles meddyliol yn gyffredin iawn, gyda 93% o ysgolion yn gwneud y ddau.
- Roedd o leiaf hanner neu fwy o'r staff wedi cael **hyfforddiant ar adnabod ac ymateb i effaith trawma yn ystod plentyndod** mewn 45% o ysgolion. Mewn 10% o ysgolion, nid oedd unrhyw staff wedi cael yr hyfforddiant hwn.
- Adroddwyd bod **mannau anogaeth** pwrpasol ar gael i fyfyrwyr mewn 94% o ysgolion, ond mewn 42% o ysgolion, roedd y mannau hyn ar gael i rai disgyblion yn unig.
- Dywedodd dros hanner yr ysgolion (55%) eu bod yn defnyddio **Agweddau Cymdeithasol ac Emosiynol ar Ddysgu** ac roedd gan gyfran debyg (58%) o ysgolion **Gynorthwywyr Cymorth Llythrennedd Emosiynol**, cynnydd nodedig o 38% fel yr oedd yn 2015/16. (*Gweler Ffigur 56*)
- Dywedodd bron pob ysgol (89%) fod **gwasanaeth cwnsela ar gael i'w staff** ac, mewn 11% o ysgolion, roedd hwn ar gael ar y safle ac i ffwrdd o'r safle. (*Gweler Ffigur 57*)
- Roedd bron i ddwy o bob tair ysgol (61%) yn cyflwyno **ymyriadau lles i staff**. Roedd y rhain yn cwmpasu amrywiaeth eang o weithgareddau, gan gynnwys ioga, ymwybyddiaeth ofalgar, mynd am dro, diwrnodau lles, mentora, gweithgareddau cymdeithasol a gweithgareddau chwaraeon.

*Eitemau'r holiadur*


| Rhif yr eitem a'r maes | | Nifer yr ysgolion a ddarparodd ddata | Rhif y Ffigur |
|---|---|---|---|
| 49 | Polisïau iechyd meddwl | 150 | 55 |
| 50 | Polisi iechyd meddwl y staff | 147 | |
| 51 | Data monitro absenoldeb | 151 | |
| 52 | Hyfforddiant ar effaith trawma | 159 | |
| 53 | Mannau anogaeth | 161 | |
| 54 | Adnoddau iechyd meddwl a lles meddyliol | 126 | 56 |
| 55 | Gwasanaeth cwnsela i staff | 154 | 57 |
| 56 | Ymyriadau lles i staff | 154 | |

*Ffigurau*


**Ffigur 55. Polisïau ysgrifenedig ar iechyd meddwl a lles meddyliol**




**Ffigur 56. Adnoddau iechyd meddwl a lles meddyliol**




**Ffigur 57. Mynediad staff at wasanaethau cwnsela**



**Mentora**

*Crynodeb o ganfyddiadau*


- Dywedodd 90% o ysgolion eu bod yn defnyddio mentoriaid ar gyfer eu disgyblion.
- Roedd mentora cymheiriaid gan fyfyrwyr hŷn bron mor gyffredin â mentora gan staff yr ysgol. Roedd un o bob pum ysgol oedd yn defnyddio mentoriaid yn defnyddio un o sefydliad mentora. (*Gweler Ffigur 58*)

*Eitemau'r holiadur*

| Rhif yr eitem a'r maes | | Nifer yr ysgolion a ddarparodd ddata* | Rhif y Ffigur |
|---|---|---|---|
| 57a | Mentora | 159 | |
| 57b | Mentoriaid | 143 (143) | 58 |

* Mae patrymau hepgor yn yr holiadur yn golygu nad yw pob cwestiwn yn berthnasol i bob ysgol. Mae'r rhifau mewn cromfachau yn cynrychioli cyfanswm nifer yr ysgolion yr oedd y cwestiwn yn berthnasol iddynt.

*Ffigurau*




**Addysg Rhyw a Pherthnasoedd (ARhPh)**

*Crynodeb o ganfyddiadau*

- Dirprwy benaethiaid neu benaethiaid cynorthwyol oedd yn gyfrifol yn fwyaf cyffredin am gydlynu **addysgu ARhPh**. Mewn 12% o ysgolion, nid oedd un unigolyn yn gyfrifol am gydlynu ARhPh. (*Gweler Ffigur 59*) Roedd amrywiaeth o grwpiau yn cyfrannu at addysgu ARhPh, sef athrawon gwyddoniaeth, asiantaethau allanol a nyrsys ysgol yn fwyaf cyffredin. (*Gweler Ffigur 60*) Roedd dros chwarter o ysgolion (27%) yn dibynnu ar 5 grŵp neu fwy i gyflwyno addysgu ARhPh.


- Dywedodd 98% o ysgolion fod llai na 5% o **rieni'n tynnu'u plant o ARhPh**. Nid oedd mwy nag 20% o blant yn cael eu tynnu o ARhPh yn yr un ysgol.
- Mae gan ychydig dros hanner o ysgolion (52%) **wasanaeth 'galw heibio' ar y safle** yn benodol ar gyfer cyngor ar iechyd rhywiol. Nyrsys ysgol oedd yn darparu'r gwasanaethau ym mwyafrif helaeth (86%) yr ysgolion â gwasanaeth. (*Gweler Ffigur 61*)
- Mae 40% o ysgolion yn **darparu condomau yn rhad ac am ddim ar y safle i** fyfyrwyr.


*Eitemau'r holiadur*


| **Rhif yr eitem a'r maes** | | **Nifer yr ysgolion a ddarparodd ddata*** | **Rhif y Ffigur** |
|---|---|---|---|
| 58a | Cydlynu ARhPh | 139 | 59 |
| 58b | Addysgu ARhPh | 161 | 60 |
| 59 | Tynnu plant o ARhPh | 160 | |
| 60a | Canolfan galw heibio ar y safle ar gyfer iechyd rhywiol | 161 | |
| 60b | Darparwr canolfan galw heibio | 84 (84) | 61 |
| 61 | Cynllun Cerdyn C | 161 | |

* Mae patrymau hepgor yn yr holiadur yn golygu nad yw pob cwestiwn yn berthnasol i bob ysgol. Mae'r rhifau mewn cromfachau yn cynrychioli cyfanswm nifer yr ysgolion yr oedd y cwestiwn yn berthnasol iddynt.

*Ffigurau*




Ffigur 60. Grwpiau sy'n cyfrannu at addysgu ARhPh
% o ysgolion
70
60
50
40
30
20
10
0
64
40
34
37
31
60
63
9
6
Athrawon gwyddoniaeth
Athrawon ARhPh/addysgu iechyd arbenigol
Athrawon Addysg Grefyddol
Tiwtoriaid dosbarth
Unrhyw athro dosbarth
Nyrs ysgol
Asiantaethau allanol
Myfyrwyr
Arall


Ffigur 61. Darparwyr gwasanaeth galw heibio ar gyfer iechyd rhywiol
% o ysgolion â gwasanaeth
90
80
70
60
50
40
30
20
10
0
86
14
5
2
10
Nyrs ysgol
Gweithwyr ieuenctid yr AL
Staff lleol y GIG
Gweithwyr ieuenctid elusen
Arall

**Trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol (VAWDASV)**


*Crynodeb o ganfyddiadau*


- Roedd mwy na hanner yr ysgolion heb **bolisi ysgrifenedig a oedd yn cynnwys trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol,** ond roedd polisïau'n ymwneud â staff a disgyblion ar waith neu wrthi'n cael eu datblygu mewn niferoedd weddol debyg. (*Gweler Ffigur 62*)
- Roedd bron i dri chwarter o ysgolion (74%) â pholisi ysgrifenedig sydd, yn benodol, yn rhoi **arweiniad i staff ar sut i ymateb i ddatgeliadau gan fyfyrwyr** am aflonyddu neu drais rhywiol. Roedd polisi wrthi'n cael ei ddatblygu gan 8% arall.
- Roedd un o bob pum ysgol (22%) wedi datblygu **ymagwedd ysgol gyfan at drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol**, gyda 35% arall yn datgan eu bod yn ei datblygu.
- Y **camau** a enwyd amlaf i fynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn y ddwy flwyddyn academaidd ddiwethaf oedd addysg staff, gweithio mewn partneriaeth ag asiantaethau perthnasol ac addysg disgyblion. Dim ond 7% o ysgolion ddywedodd eu bod wedi defnyddio cyfraniad gweithgar disgyblion i fynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol. (*Gweler Ffigur 63*)
- Roedd **hyfforddiant staff** ar drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn y ddwy flwyddyn academaidd ddiwethaf (2015/16 i 2016/17) yn fwy cyffredin o lawer nag yn 2013 i 2015. Roedd tua 50% o ysgolion wedi hyfforddi'u holl staff i adnabod arwyddion trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol, a sut i weithredu pe gwelent arwyddion o hynny, o gymharu ag 11-14% yn 2013 i 2015. Roedd dros 90% o ysgolion wedi rhoi hyfforddiant i rai o'u staff, neu'r cyfan ohonynt, ar sut i ymateb i ddatgeliad gan fyfyriwr am aflonyddu neu drais rhywiol. (*Gweler Ffigur 64*)


*Eitemau'r holiadur*

| Rhif yr eitem a'r maes | | Nifer yr ysgolion a ddarparodd ddata | Rhif y Ffigur |
|---|---|---|---|
| 62 | Polisi ysgrifenedig ar drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol (VAWDASV) | 150-155 | 62 |
| 63 | Polisi ysgrifenedig ar ddatgeliadau gan fyfyrwyr | 156 | |
| 64a | Ymagwedd ysgol gyfan at drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol (VAWDASV) | 153 | |
| 64b | Camau ynghylch trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol (VAWDASV) | 144 | 63 |
| 65 | Hyfforddiant i staff ar drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol (VAWDASV) | 150-154 | 64 |

*Ffigurau*


Ffigur 62. Ysgolion â pholisïau ysgrifenedig sy'n cynnwys VAWDASV
100%
80%
60%
40%
20%
0%
57
24
19
60
26
14
Polisi yn ymwneud â myfyrwyr
Polisi yn ymwneud â staff
Oes
Yn cael ei ddatblygu
Nac oes


Ffigur 63. Camau a gymerwyd i fynd i'r afael â VAWDASV yn 2015/16-2016/17
% o ysgolion
50
40
30
20
10
0
40
47
4
3
28
7
4
47
5
20
Addysg myfyrwyr ar VAWDASV
Addysg staff ar VAWDASV
Addysg rhieni, rhoddydd gofal a theulu ar VAWDASV
Systemau monitro a gwerthuso i fesur effaith camau VAWDASV
Mesur i gefnogi myfyrwyr sy'n dioddef VAWDASV
Cyfranogiad gweithredol myfyrwyr i fynd i'r afael â VAWDASV
Camau i fynd i'r afael â VAWDASV yn y gymuned ehangach
Gweithio mewn partneriaeth ag asiantaethau perthnasol
Mewnosod rhaglen atal gynhwysfawr
Dim un o'r uchod


Ffigur 64. Hyfforddiant staff ar Camau a gymerwyd i fynd i'r afael â VAWDASV yn 2015/16-2016/17
% o ysgolion
100
80
60
40
20
0
45
35
20
51
31
18
71
20
8
Adnabod ei arwyddion o VAWDASV
Sut i gymryd camau priodol i arwyddion VAWDASV
Sut i ymateb i ddatgeliad myfyrwyr
Dim
Rhai staff
Yr holl staff

**Darpariaeth gwasanaeth iechyd**

*Crynodeb o ganfyddiadau*

- Dywedodd mwyafrif helaeth yr ysgolion (88%) fod ganddynt nyrs ysgol. Yn y rhan fwyaf o ysgolion, nyrs y GIG oedd hon, ond roedd 12% o ysgolion yn cyflogi'u nyrs eu hunain, naill ai yn hytrach na nyrs y GIG, neu yn ogystal â hi. (*Gweler Ffigur 65*)

- Mewn ysgolion â darpariaeth nyrsio, yn fwyaf cyffredin, roedd nyrs ar y safle unwaith i ddwywaith yr wythnos (53% o ysgolion). Roedd gan naw y cant o ysgolion nyrs ar y safle ac ar gael i fyfyrwyr bob dydd. (*Gweler Ffigur 66*)

- Y **dasg a wnaed yn fwyaf cyffredin** gan nyrsys ysgol y GIG oedd rhoi cyngor a chymorth unigol i fyfyrwyr yn achlysurol. Roedd cyfran yr ysgolion yn cynnig gwasanaeth galw heibio rheolaidd i'r nyrs wedi gostwng o 69% yn 2015/16 i 59%. (*Gweler Ffigur 67*)

- Roedd dros 90% o ysgolion yn cynnig **gwasanaeth cwnsela i fyfyrwyr** yn yr ysgol o leiaf unwaith yr wythnos. Roedd canran yr ysgolion a oedd yn cynnig gwasanaeth bob dydd wedi mwy na dyblu o 5% yn 2015/16 i 13%. (*Gweler Ffigur 68*) Roedd 60 y cant o ysgolion â gwasanaeth cwnsela wedi gweld 11 neu fwy o fyfyrwyr ag anghenion nad oedd y gwasanaeth yn gallu'u bodloni yn ystod y ddwy flwyddyn academaidd ddiwethaf (2015/16 a 2016/17) ac roedd hanner o'r rhain wedi gweld dros 20 o fyfyrwyr ag anghenion o'r fath. (*Gweler Ffigur 69*)

- Roedd unigolyn wedi'i enwi yn y **Gwasanaeth Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc (CAMHS) lleol** gan ddwy o bob tair ysgol (66%) ac roeddent yn gallu cysylltu â'r unigolyn i gael help a chymorth. Nid oedd unigolyn wedi'i enwi gan 29% o ysgolion.

- Roedd tuag un o bob pum ysgol (22%) mewn **cysylltiad â'u CAMHS lleol** yn wythnosol ac roedd hanner arall mewn cysylltiad yn fisol, o leiaf. (*Gweler Ffigur 70*) Roedd bron pob ysgol (92%) a oedd mewn cysylltiad â'u CAMHS lleol yn cael cyngor dros y ffôn. Hefyd, cynhaliwyd cyfarfodydd rheolaidd gyda CAMHS mewn 43% o ysgolion. (*Gweler Ffigur 71*)

- Penaethiaid cynorthwyol, staff bugeiliol a nyrsys ysgol oedd y grwpiau mewn ysgolion a oedd yn fwyaf tebygol o **atgyfeirio i CAMHS** a chydweithio amlaf â CAMHS. (*Gweler Ffigur 72*) O'r ysgolion a allai atgyfeirio i CAMHS, bu ychydig o gynnydd yn y ganran a oedd yn gwneud 11 atgyfeiriad neu fwy y flwyddyn. (*Gweler Ffigur 73*) Dywedodd y rhan fwyaf o'r ysgolion (81%) a oedd wedi atgyfeirio fod 'rhai' o'r disgyblion wedi'u hatgyfeirio wedi cael at driniaeth. Dywedodd 17 fod 'pob' myfyriwr wedi cael at driniaeth a dywedodd 2% nad oedd yr un wedi gwneud.

- Dim ond chwarter o ysgolion oedd yn teimo bod eu CAMHS lleol yn eu cefnogi nhw, o gymharu â 39% nad oedd yn teimlo'u bod yn cael eu cefnogi. (*Gweler Ffigur 74*)

- Roedd gan bron i ddwy o bob tair ysgol (64%) **seicolegydd addysg yn yr ysgol** a oedd ar gael yn rheolaidd, neu gallent ofyn i seicolegydd addysg ddod i'r ysgol. (*Gweler Ffigur 75*)


- Roedd disgyblion yn cael gwybod am **wasanaethau cwnsela cyfrinachol, lleol eraill** mewn 92% o ysgolion. Mewn 82% o'r ysgolion hyn, gallai disgyblion fynychu'r gwasanaethau yn ystod oriau ysgol. Ni chaniatawyd hyn mewn 2% o ysgolion ac fe'i caniatawyd mewn amgylchiadau eithriadol yn unig yn yr 16% sy'n weddill.

*Eitemau'r holiadur*


| Rhif yr eitem a'r maes | | Nifer yr ysgolion a ddarparodd ddata* | Rhif y Ffigur |
|---|---|---|---|
| 66a | Nyrs ysgol | 158 | 65 |
| 66b | Argaeledd nyrs ysgol | 133 (138) | 66 |
| 66c | Rôl nyrs | 136 (138) | 67 |
| 67a | Gwasanaeth cwnsela yn yr ysgol | 159 | 68 |
| 67b | Angen heb ei fodloni gan y gwasanaeth cwnsela yn yr ysgol | 152 (158) | 69 |
| 68 | Cyswllt CAMHS wedi'i enwi | 160 | |
| 69a | Amlder y cyfathrebu â CAMHS | 157 | 70 |
| 69b | Ffurf y cyfathrebu â CAMHS | 150 (152) | 71 |
| 70 | Atgyfeirio i CAMHS a chydweithio â nhw | 141-146 | 72 |
| 71a | Atgyfeiriadau i CAMHS | 134-136 | 73 |
| 71b | Mynediad at driniaeth CAMHS | 106 (107) | |
| 72 | Amgyffrediad o'r cymorth gan CAMHS | 155 | 74 |
| 73a | Seicolegydd addysg yn yr ysgol | 158 | 75 |
| 73b | Argaeledd seicolegydd addysg | 100 (101) | 75 |
| 74a | Gwasanaethau cwnsela lleol | 157 | |
| 74b | Mynediad at wasanaethau lleol yn ystod oriau ysgol | 141 (144) | |

* Mae patrymau hepgor yn yr holiadur yn golygu nad yw pob cwestiwn yn berthnasol i bob ysgol. Mae'r rhifau mewn cromfachau yn cynrychioli cyfanswm nifer yr ysgolion yr oedd y cwestiwn yn berthnasol iddynt.


*Ffigurau*




Ffigur 66. Argaeledd nyrs ysgol i fyfyrwyr ar y safle






Ffigur 67. Tasgau a wneir gan nyrsys ysgol





Ffigur 68. Argaeledd gwasanaeth cwnsela yn yr ysgol





Ffigur 69. Ysgolion â myfyrwyr nad oedd gwasanaeth cwnsela'r ysgol wedi gallu bodloni'u hanghenion o 2015-2017
16%
24%
30%
30%
Llai na 5 myfyrwyr
6 i 10 myfyriwr
11 i 20 myfyriwr
21 myfyriwr neu fwy



Ffigur 70. Amlder y cyfathrebu rhwng yr ysgol â'r CAMHS lleol
22%
18%
32%
13%
7%
5%
3%
Wythnosol
Pythefnosol
Misol
Oddeutu unwaith bob hanner tymor
Oddeutu unwaith y tymor
Llai nag unwaith y tymor
Byth


Ffigur 71. Cyfathrebu â CAMHS
% o ysgolion sydd â chysylltiad â CAMHS
100
80
60
40
20
0
11
92
43
5
18
Clinigau ar y safle
Cyngor dros y ffôn
Cyfarfodydd rheolaidd
Hyfforddiant ar y cyd
Arall

Ffigur 72. Rolau'r ysgol yn cyfeiriad i CAMHS ac yn cydweithio â nhw






Ffigur 73. Atgyfeiriadau i CAMHS yn y ddwy flynedd ddiwethaf




| | Dim un | Un | Dau i bump | Chwech i ddeg | 11 neu fwy |
|---|---|---|---|---|---|
| 2015/16 | 5 | 1 | 38 | 30 | 25 |
| 2016/17 | 5 | 4 | 31 | 30 | 29 |

Ffigur 74. Y graddau y mae ysgolion yn teimlo bod CAMHS yn eu cymorth






**Ymddygiad a disgyblaeth**


*Crynodeb o ganfyddiadau*

- Defnyddiwyd **ynysu** i reoli ymddygiad disgyblion mewn 90% o ysgolion.
- Roedd defnyddio **arferion adferol** ym maes disgyblu disgyblion yn gyffredin (*Gweler Ffigur 76*); roedd 28% o ysgolion yn defnyddio tair arfer neu fwy.

*Eitemau'r holiadur*

| Rhif yr eitem a'r maes | | Nifer yr ysgolion a ddarparodd ddata | Rhif y Ffigur |
|---|---|---|---|
| 75 | Ynysu i reoli ymddygiad | 159 | |
| 76 | Arferion adferol | 161 | 76 |

*Ffigurau*




**Cefnogi iechyd a lles myfywyr a allai wynebu deilliannau gwaeth**

*Crynodeb o ganfyddiadau*


- Y grwpiau o fyfyrwyr yr oedd ysgolion yn fwyaf tebygol o fod wedi llunio **polisi ysgrifenedig** ar eu cyfer yn cydnabod eu hanghenion iechyd a lles penodol oedd plant a phobl ifanc mewn gofal a gofalwyr ifanc. Roedd gan lai nag 20% o ysgolion bolisïau o'r fath i fyfyrwyr â rhiant yn y carchar, disgyblion a oedd wedi gweld eu rhieni'n gwahanu, disgyblion â rhiant â hanes o salwch meddwl neu fyfyrwyr a oedd wedi cael profiad o gam-drin domestig. (*Gweler Ffigur 77*)
- Roedd ysgolion yn fwy tebygol o fod â **phrosesau a/neu lwybrau atgyfeirio** i gefnogi iechyd a lles y grwpiau hyn nag oeddent i fod â pholisïau ysgrifenedig. Eto, roedd ysgolion yn fwyaf tebygol o fod â phrosesau ar waith ar gyfer gofalwyr ifanc a phlant a phobl ifanc mewn gofal. (*Gweler Ffigur 78*)
- Roedd tua hanner yr ysgolion yn **monitro lles a deilliannau addysgol** yn yr holl grwpiau hyn, ac eithrio plant a phobl ifanc mewn gofal a gofalwyr ifanc, lle'r oedd lefel uwch o fonitro. Ar gyfer y rhan fwyaf o grwpiau, roedd monitro lles yn fwy cyffredin na monitro cyrhaeddiad. (*Gweler Ffigur 79*)

*Eitemau'r holiadur*


| Rhif yr eitem a'r maes | | Nifer yr ysgolion a ddarparodd ddata | Rhif y Ffigur |
|---|---|---|---|
| 77 | Polisïau ysgrifenedig | 161 | 77 |
| 78 | Prosesau ar gyfer cefnogi | 161 | 78 |
| 79 | Monitro deilliannau | 161 | 79 |

*Ffigurau*


**Ffigur 77. Ysgolion â pholisïau ysgrifenedig sy'n cydnabod grwpiau penodol sydd, o bosibl, ag anghenion iechyd a lles penodol**




**Ffigur 78. Ysgolion sydd â phrosesau ar waith i roi cefnogaeth ychwanegol i grwpiau penodol**




**Ffigur 79. Monitro lles a deilliannau addysg**



**Plant a phobl ifanc mewn gofal**

*Crynodeb o ganfyddiadau*


- Y **cymorth** mwyaf cyffredin ar gyfer plant a phobl ifanc mewn gofal oedd i'r ysgol eu cynnwys nhw mewn datblygu'u Cynllun Addysg Personol / Cynllun Datblygu Unigol (CAP/CDU) a monitro'u cynnydd yn erbyn y cynllun hwnnw. Roedd darparu adnoddau i gynorthwyo pobl ifanc mewn gofal â'u gwaith ysgol a'u gwaith cartref, a rhoi cymorth i reoli emosiynau a/neu feithrin sgiliau cymdeithasol yn gyffredin hefyd. (*Gweler Ffigur 80*)
- Roedd **aelod dynodedig o staff gyda chyfrifoldeb arweiniol am gyrhaeddiad addysgol** pobl ifanc mewn gofal mewn 85% o ysgolion. Roedd yr unigolyn yn y rôl hon yn fwyaf tebygol o fod yn bennaeth cynorthwyol (44% o ysgolion ag arweinydd dynodedig), yn ddirprwy bennaeth (24%) neu'n aelod o staff gofal bugeiliol (18%).
- Yn yr ysgolion hynny ag aelod dynodedig o staff, roedd 85% ohonynt wedi cael rhyw fath o **hyfforddiant** ar gyfer eu rôl yn y ddwy flynedd ddiwethaf. Darparwyd hwn yn fwyaf cyffredin gan yr Awdurdod Lleol. (*Gweler Ffigur 81*)
- Yn y rhan fwyaf o ysgolion (74%) ag aelod dynodedig o staff, roedd ei rôl hefyd yn cynnwys **cyfrifoldeb am les** pobl ifanc mewn gofal. Mewn 9% o ysgolion, roedd aelod arall o staff yn gyfrifol am hyn ac mewn 17% o ysgolion, nid oedd gan yr un aelod staff y cyfrifoldeb penodol hwn.
- Yn yr ysgolion a oedd yn cynnal **cyfarfodydd adolygu gofal,** roedd amseru'r cyfarfodydd yn amrywio, ond dywedodd 37% o ysgolion eu bod bob amser yn eu cynnal yn ystod amser gwersi. (Gweler Ffigur 82) Roedd dros dri chwarter o ysgolion (77%) bob amser yn cynnal cyfarfodydd adolygu gofal mewn ystafell breifat nad oedd yn weladwy i fyfyrwyr eraill, ac roedd 15% bob amser yn eu cynnal mewn ystafell breifat a oedd yn weladwy. (*Gweler Ffigur 83*)
- Roedd traean o ysgolion bob amser yn cynnal cyfarfodydd adolygu gofal a chyfarfodydd CAP/CDU gyda'i gilydd, ond roedd 11% byth yn gwneud hynny.
- Roedd cytundebau lefel gwasanaeth neu brotocolau i rannu gwybodaeth er mwyn ei gwneud hi'n haws i bobl ifanc mewn gofal bontio o'r ysgol i addysg ôl-16 yn gyffredin; roedd gan 43% o ysgolion y rhain ar waith gyda phob darparwr addysg ôl-16 perthnasol a 37% gyda rhai darparwyr. Nid oedd cytundebau ar waith o gwbl gan un o bob pum ysgol. (*Gweler Ffigur 84*)
- Roedd y rhan fwyaf o ysgolion (78%) bob amser yn cynnig cymorth arbenigol i sicrhau bod pobl ifanc mewn gofal yn gwybod am yr opsiynau addysg ôl-16 a oedd ar gael iddynt. Roedd ychydig llai o ysgolion (68%) bob amser yn gallu cynnig cymorth ymarferol i alluogi pobl ifanc mewn gofal i archwilio'u hopsiynau. (*Gweler Ffigur 85*)

*Eitemau'r holiadur*


| Rhif yr eitem a'r maes | | Nifer yr ysgolion a ddarparodd ddata | Rhif y Ffigur |
|---|---|---|---|
| 80 | Cymorth ar waith | 157 | 80 |
| 81a | Aelod dynodedig o staff ar gyfer cyrhaeddiad | 156 | |
| 81b | Rôl yr aelod dynodedig o staff | 113(133) | |
| 81c | Hyfforddiant i'r aelod dynodedig o staff | 130(133) | 81 |
| 81ch | Cyfrifoldeb yr aelod dynodedig o staff am les | 117 (133) | |
| 82a | Amseru cyfarfodydd adolygu gofal | 100-150 | 82 |
| 82b | Lleoliad cyfarfodydd adolygu gofal | 80-150 | 83 |
| 82c | Cyfarfodydd adolygu gofal a CAP/CDU | 156 | |
| 83a | Protocolau ar gyfer pontio i addysg ôl-16 | 152 | 84 |
| 83b | Cymorth i godi ymwybyddiaeth o opsiynau addysg ôl-16 | 152 | 85 |
| 83c | Cymorth ymarferol i archwilio opsiynau ôl-16 | 152 | 85 |

* Mae patrymau hepgor yn yr holiadur yn golygu nad yw pob cwestiwn yn berthnasol i bob ysgol. Mae'r rhifau mewn cromfachau yn cynrychioli cyfanswm nifer yr ysgolion yr oedd y cwestiwn yn berthnasol iddynt.


*Ffigurau*




**Ffigur 81. Hyfforddiant yn y ddwy flynedd ddiwethaf i'r arweinydd dynodedig ar gyfer pobl ifanc mewn gofal**





**Ffigur 82. Amseru cyfarfodydd adolygu gofal**





**Ffigur 83. Lleoliad cyfarfodydd adolygu gofal**



**Ffigur 84. Cytundebau lefel gwasanaeth neu brotocolau i rannu gwybodaeth a fydd yn hwyluso'r pontio i addysg ôl-16**




**Ffigur 85. Cymorth ar gyfer opsiynau addysg ôl-16**




**Gofalwyr ifanc**

*Crynodeb o ganfyddiadau*

- Dywedodd y rhan fwyaf o ysgolion (59%) fod ganddynt ddeg neu lai o ofalwyr ifanc, a dywedodd 9% o ysgolion fod ganddynt fwy nag 20 o ofalwyr. Roedd ysgolion yn fwy tebygol o ddweud bod ganddynt **aelod dynodedig o staff** yn gyfrifol am reoli darpariaeth yr ysgol ar gyfer gofalwyr ifanc os oedd ganddynt fwy o ofalwyr ifanc. (*Gweler Ffigur 86*)
- Roedd yr aelod dynodedig o staff yn fwyaf tebygol o fod yn bennaeth cynorthwyol (43% o ysgolion gyda pherson o'r fath), yna'n aelod o'r staff gofal bugeiliol (22%) neu'n ddirprwy bennaeth (17%).
- Roedd gan y rhan fwyaf o ysgolion **brosesau** ar waith i adnabod gofalwyr ifanc (80%) ac i asesu anghenion gofalwyr ifanc am gymorth yn yr ysgol (82%).
- Roedd ychydig dros hanner o ysgolion bob amser yn atgyfeirio gofalwyr ifanc i sefydliad lleol i ofalwyr ifanc, ond roedd atgyfeiriadau i wasanaethau cymdeithasol yn llai cyffredin. (*Gweler Ffigur 87*)

*Eitemau'r holiadur*

| Rhif yr eitem a'r maes | | Nifer yr ysgolion a ddarparodd ddata | Rhif y Ffigur |
|---|---|---|---|
| 84 | Nifer y gofalwyr ifanc | 150 | 86 |
| 85a | Aelod dynodedig o staff ar gyfer gofalwyr ifanc | | 86 |
| 85b | Rôl yr aelod dynodedig o staff | 106 (122) | |
| 86 | Prosesau'n gysylltiedig â gofalwyr ifanc | 144-153 | |
| 87 | Atgyfeiriadau i ofalwyr ifanc | 133-148 | 87 |

* Mae patrymau hepgor yn yr holiadur yn golygu nad yw pob cwestiwn yn berthnasol i bob ysgol. Mae'r rhifau mewn cromfachau yn cynrychioli cyfanswm nifer yr ysgolion yr oedd y cwestiwn yn berthnasol iddynt.

*Ffigurau*

